‘Cyflawni dyfodol disglair’

# Datganiad Blynyddol 2026-27

Bro 2030
Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair

**Bro 2030 yw Cynllun y Cyngor ar gyfer 2025-2030. Mae’n gosod rhaglen waith uchelgeisiol i wireddu ein gweledigaeth o Gymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair.**

Drwy’r Bro 2030, mae gennym bum Amcan i fwrw ymlaen â’n gwaith. Dyma rai o’r pethau y gallwch chi ddisgwyl yn 2026-2027.

- **Cwblhau’r adeiladau ysgol newydd sbon yn Ysgol Llyn Derw a Sant Richard Gwyn,** gwneud cynnydd pellach yn Ysgol Iolo Morgannwg a dechrau gwaith ar Ysgol Gynradd Sili.
- **Gwella presenoldeb yn yr ysgol a chefnogaeth** i’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i bob disgybl.
- **Gweithio ar y cyd i gefnogi ysgolion** i gyflawni cyllidebau cytbwys.
- **Buddsoddi mewn gwasanaethau ieuenctid** drwy ehangu gwasanaethau rheng flaen ar draws y sir gyfan, cynyddu’r ffocws ar gymorth ôl-16, datblygu pentref ieuenctid ym Mhencoedtre, mwy o gyfleoedd awyr agored a llwybrau addysg amgen i gefnogi mwy o bobl ifanc a sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed.
- **Cyflwyno gwasanaeth strydlun newydd** ar draws y sir sy’n fwy ymatebol i drigolion ac sy’n arwain at amgylcheddau lleol glanach a chanol trefi.
- **Lleihau allyriadau carbon yn ein cadwyni cyflenwi** drwy ddefnyddio data i wneud penderfyniadau prynu mwy cyfeillgar i’r hinsawdd.
- **Ehangu’r gwasanaeth ailgylchu plastigau meddal wythnosol** i holl drigolion y Fro yn dilyn y treial llwyddiannus y llynedd.
- **Parhau â’r rhaglen adeiladu tai cyngor,** gan gwblhau’r cynllun tai dros dro yn Nhŷ Cadoxton a llety pobl hŷn yn y Bont-faen, tra’n dechrau gweithio ar fwy o dai i deuluoedd yn Hayeswood Road yn y Barri a llety i bobl hŷn ym Mhenarth.
- **Cyflwyno’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN)** i Lywodraeth Cymru gan nodi fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy.

Creu lleoedd gwych i fyw, i weithio ac i ymweld

Parchu a dathlu’r amgylchedd

Rhoi dechrau da mewn bywyd i bawb

Cefnogi ac amddiffyn y rhai sydd ein hangen

Bod y cyngor gorau y gallwn fod

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

- **Cyflawni gwelliannau i olwg a theimlad y pedair tref** trwy gyllid Trawsnewid Trefi a chwblhau ein rhaglen o adnewyddu toiledau cyhoeddus drwy wella cyfleusterau yn Albert Road, Penarth.
- **Buddsoddi mewn parciau, parciau gwledig a chyrchfannau gwyliau ledled y Fro,** gan gynnwys parc sblasio a sglefrio wedi'i adnewyddu ym Mhencoedtre yn y Barri, gwelliannau i fannau agored yn Palmerston a Bendricks Road, adnewyddu ac ymestyn ardal chwarae Ffordd y Gog yn Sili yn llawn a gwelliannau ym Mharc Seel yn Ninas Powys.
- **Trosi Swyddfa Dociau'r Barri yn ofod busnes newydd a dechrau datblygu'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr a'r 'Mole'** a fydd yn darparu cyfleusterau hamdden gwell a mwy o dai, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy, yng Nglannau'r Barri.
- **Buddsoddi mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn y Fro** wledig sy'n gwneud mynediad at wasanaethau a gwaith yn fwy cyfleus.
- **Ymestyn ein gwaith mewn partneriaeth** i ganolbwyntio ar drechu tlodi, gan weithio gyda'r rhai mwyaf anghenus.
- **Cefnogi 50% yn fwy o bobl i fyw'n annibynnol** drwy ehangu ein gwasanaethau ailalluogi a ffyrdd eraill o ofalu am bobl.
- **Ei gwneud yn haws i gael cyngor, cymorth a gwasanaethau cyflogaeth** drwy wella sut rydym yn cydgysylltu ein gwasanaethau a gwasanaethau ein partneriaid a gwneud gwelliannau pellach i hygyrchedd gwybodaeth ar wefan y Cyngor.
- **Cyflwyno strategaeth gyfathrebu newydd** sy'n cynyddu cyfleoedd i drigolion gymryd rhan, rhannu barn a siapio ein gwaith.
- **Gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch,** ymatebol a chynaliadwy yn ariannol drwy ein rhaglen drawsnewid, Ail-lunio.

## Sut fyddwch chi'n gwybod ein bod ni'n cyflawni ar hyn?

**Dim ond trosolwg yw hwn o rywfaint o'r gwaith allweddol y byddwn yn canolbwyntio arno eleni.**

Ceir mwy o fanylion am y gwaith hwn a'n hymrwymiadau pellach mewn pum Cynllun Cyfarwyddiaeth sy'n dangos sut y bydd pob rhan o'r Cyngor yn gwneud eu cyfraniad.

Rydym yn adolygu ein cynnydd yn rheolaidd gan ein Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Cabinet a'r Aelodau Etholedig. Byddwch yn gweld adroddiadau rheolaidd ar ein perfformiad a gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Ewch i: www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Achieving_our_Vision/Achieving-our-Vision.aspx
Dilynwch: Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook neu Instagram

Uchelgais Balchder Agored Cydweithio

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG